



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Sirol Rhewl
Rhewl
Rhuthun
LL15 2TU**

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2017

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Sirol Rhewl

Mae Ysgol Gynradd Sirol Rhewl ym mhentref Rhewl ger Rhuthun yn Sir Ddinbych. Mae 24 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr ar hyn o bryd, a daw llawer ohonynt o'r pentref a'r ardal gyfagos. Mae niferoedd y disgyblion wedi gostwng yn sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, o ganlyniad i'r disgwyliad i gau'r ysgol ym mis Gorffennaf 2018, sef blwyddyn yn ddiweddarach na'r bwriad gwreiddiol.

Mae dau ddsbarth oedran cymysg: un ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen a'r dosbarth arall ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2.

Caiff disgyblion eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf. Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi'i dosbarthu'n ysgol ddwyieithog ddynodedig, a ddylai ddarparu ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd, yn unol â'r galw. Mae tua 16% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Ar gyfartaledd, mae tua 10% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%. Mae'r ysgol wedi nodi mai ychydig iawn o'i disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Dechreuodd y pennaeth dros dro ar ei swydd ym mis Medi 2017. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n meithrin medrau personol a chymdeithasol disgyblion yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yr ysgol yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol at eu gwaith, ar y cyfan. Fodd bynnag, ni chaiff disgyblion eu cynnwys yn llawn mewn gwneud penderfyniadau am fywyd a gwaith yr ysgol. Erbyn cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o ran datblygu eu medrau siarad a gwrando, ond nid yw eu medrau darllen mor gryf.

Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol a difyr ar gyfer disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau hyn bob amser yn ddigon trylwyr i sicrhau bod disgyblion bob amser yn datblygu eu medrau rhifedd yn ddigon da mewn ystod o gyd-destunau.

Mae'r pennaeth dros dro wedi gweithio'n gydwybodol ac yn frwdfrydig gyda staff yn y cyfnod byr y mae hi wedi bod yn yr ysgol. Mae ganddi synnwyr clir o ddiben, sydd wedi'i seilio ar greu cymuned ofalgar a chynhwysol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Fodd bynnag, er bod gan gynllunio strategol yr ysgol lawer o gryfderau, mae agweddau pwysig sydd angen eu gwella o hyd, er enghraifft sicrhau bod adborth athrawon i ddisgyblion yn ddigon effeithiol i'w galluogi i wella'u gwaith.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Digonol ac angen gwelliant
Lles ac agweddau at ddysgu	Digonol ac angen gwelliant
Addysgu a phrofiadau dysgu	Digonol ac angen gwelliant
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Digonol ac angen gwelliant

Argymhellion

- A1 Gwella darllen a medrau disgyblion
- A2 Sicrhau bod prosesau hunanarfarnu a chynllunio datblygiad yn ddigon trylwyr i alluogi arweinwyr i nodi'r blaenoriaethau cywir ar gyfer gwella
- A3 Mireinio adborth ysgrifenedig athrawon fel ei fod yn galluogi disgyblion i ddeall yn glir yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith
- A4 Sicrhau bod cynllunio athrawon yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau rhifedd yn gynyddol ar draws y cwricwlwm

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Digonol ac angen gwelliant

Mae safon medrau iaith a mathemategol disgyblion pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol yn amrywio o un flwyddyn i'r llall. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth iddynt symud trwy'r ysgol a chyflawni'r lefel ddisgwyliedig o leiaf erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Gan mai nifer fach o ddisgyblion sydd ym mhob grŵp blwyddyn yn yr ysgol, mae'n anodd cymharu cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion. Fodd bynnag, mae'r ychydig iawn o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau o'u manau cychwyn unigol.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau siarad priodol, er enghraifft pan fyddant yn disgrifio sut gwnaethant drefnu picnic dosbarth ar y lleud fel rhan o'u gwaith testun. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau siarad a gwrando a defnyddiant y rhain yn effeithiol mewn perthynas â'u testun am yr Ail Ryfel Byd. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer ohonynt yn datblygu eu medrau darllen yn briodol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif ohonynt yn adnabod llythrennau a synau'n hyderus ac maent yn defnyddio strategaethau cyfyngedig i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Wrth iddynt symud trwy gyfnod allweddol 2, er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn casglu gwybodaeth o ystod o ffynonellau ac yn cyflwyno eu canfyddiadau mewn amrywiaeth o ffyrdd, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn eu darllen. Nid oes ganddynt ruglder a mynegiant, ac ni ddangosant lawer o frwdfrydedd wrth ddarllen.

Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu eu syniadau'n briodol o fewn ystod gyfyngedig o *genres*. Maent yn ysgrifennu ymadroddion a brawddegau byrion yn effeithiol yn Saesneg, er enghraifft wrth ysgrifennu hanes eu penwythnos. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn ysgrifennu'n ddigon estynedig yn annibynnol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n hyderus mewn ystod o arddulliau ac yn trefnu eu hysgrifennu'n effeithiol fel ei fod yn addas ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd yn Saesneg. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o atalnodi ac yn defnyddio geirfa briodol i wella eu hysgrifennu. Mae llawer ohonynt yn parhau i ddatblygu eu medrau ysgrifennu'n dda mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu erthygl papur newydd ar arbed y fforest law. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n ddigon helaeth i safon addas. Nid ydynt yn defnyddio amrywiaeth ddigon eang o strwythurau brawddeg na geirfa estynedig yn eu hysgrifennu.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd tuag at y Gymraeg. Maent yn ymateb yn briodol i ymadroddion a chyfarwyddiadau sylfaenol yn Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio geirfa Gymraeg benodol yn dda wrth drafod y planedau fel rhan o'u testun dosbarth. Wrth iddynt symud trwy gyfnod allweddol 2, mae medrau llafaredd Cymraeg disgyblion yn llai datblygedig. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn sgysiau sylfaenol wrth siarad am eu hobiau, ac erbyn diwedd Blwyddyn 6, gall mwyafrif ohonynt ysgrifennu cyfres o frawddegau strwythuredig yn Gymraeg gan ddefnyddio amrywiaeth o ferfau'n bwrpasol, er enghraifft wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau ar sut i wneud crymbl afalau.

Ar ddiwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o rifau i fyny i 100, ac mae rhai o'r disgyblion mwy abl yn disgrifio'r gwahaniaeth rhwng odrifau ac eilrifau yn hyderus. Gyda chymorth, mae llawer ohonynt yn coladu data o ymchwiliad gwyddonol am gadw hylif yn gynnes, ac yn cofnodi eu canfyddiadau'n briodol ar graff llinell. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cymharu ffracsiynau'n gywir ac yn cyfrifo canrannau'n hyderus. Mae llawer ohonynt yn dadansoddi data syml yn briodol ac yn cynrychioli eu canfyddiadau mewn amrywiaeth o graffiau, er enghraifft wrth gymharu'r tywydd yn Rhewl ac yn y fforest law. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn gyson ar draws y cwricwlwm yn y naill gyfnod allweddol na'r llall.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol. Yn y cyfnod sylfaen, defnyddiant ystod briodol o raglenni, er enghraifft rhaglen graffeg a Word i gyflwyno eu syniadau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio pecynnau TGCh yn hyderus i wneud cyflwyniadau. Defnyddiant daenlenni a chronfeydd data yn briodol yn eu gwaith testun. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'r rhyngwyd yn hyderus i chwilio am wybodaeth sy'n berthnasol i'w testun.

Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwelliant

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i aros yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngwyd. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth gadarn o faterion sy'n effeithio ar eu hiechyd a'u lles. Maent yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a'r angen i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau corfforol ac mae lleiafrif ohonynt yn mynychu gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol sy'n hyrwyddo eu ffitrwyd yn effeithiol, er enghraifft y sesiynau 'rhedeg milltir' a gymnasteg wythnosol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth ac ar adegau eraill yn ystod y dydd. Yn gyffredinol, mae ganddynt agwedd gadarnhaol at eu gwaith a dangosant ystyriaeth tuag at bobl eraill. Mae'r strategaeth cyfeillion iard chwarae yn cefnogi'r agwedd hon yn dda. Fodd bynnag, ni chaiff disgyblion eu cynnwys yn llawn mewn gwneud penderfyniadau am fywyd a gwaith yr ysgol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn ymgymryd yn gadarnhaol â'u tasgau. Maent yn gweithio'n ddiwyd mewn grwpiau pan gyflwynir gweithgareddau datrys problemau iddynt, er enghraifft wrth gynllunio ymweliad â Jodrell Bank fel rhan o'u gwaith testun. Maent yn cynorthwyo'i gilydd yn dda ac yn ystyried syniadau a barn disgyblion eraill. Fodd bynnag, nid yw rhai disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn dangos ffocws ac yn canolbwyntio, ac maent yn dibynnu'n helaeth ar gymorth gan oedolion. At ei gilydd, cyfyngedig yw dealltwriaeth disgyblion ar draws yr ysgol o ba mor dda y maent yn cyflawni a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwelliant

Mae safon yr addysgu yn ddigonol ac angen gwelliant. Mae pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth broffesiynol gyfoes ac maent yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol a difyr ar gyfer disgyblion. Mae gwersi'n adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol disgyblion, ac maent yn datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn

briodol. Yn gyffredinol, mae athrawon yn gofyn ystod dda o gwestiynau agored sy'n gwella dysgu disgyblion yn dda. At ei gilydd, mae disgyblion yn ymateb yn dda i'r cwestiynau hyn ac mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd priodol yn eu tasgau. Pan fydd yr addysgu'n llai effeithiol, nid yw'r tasgau'n herio ychydig iawn o ddisgyblion mwy abl yn ddigon da, nac yn darparu cyfleoedd rheolaidd iddynt ddatblygu'n llawn fel dysgwyr annibynnol. O ganlyniad, mae rhai o'r disgyblion iau yn dechrau dibynnu'n ormodol ar gymorth gan oedolion ac yn gwneud cynnydd cyfyngedig.

Mae athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd gan ddefnyddio ystod o asesiadau perthnasol, a defnyddiant y wybodaeth hon yn briodol i nodi cymorth priodol ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion. Maent yn aml yn rhoi adborth cadarnhaol ar lafar i ddisgyblion ar yr hyn y maent wedi'i wneud yn dda. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw adborth ysgrifenedig bob amser yn ddigon clir i'w helpu i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Mae athrawon yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb bron pob un o'r disgyblion yn dda. Yn y cyfnod sylfaen, mae gweithgareddau ffocws wedi'u harwain gan staff, yn rhoi sylw addas i ddatblygu medrau disgyblion. Atgyfnerthir hyn gan ystod o weithgareddau dysgu estynedig a pharhaus. Er bod cynllunio ysgol gyfan yn ystyried y fframwaith llythrennedd a rhifedd a'r gofynion ar gyfer addysgu TGCh, nid yw'n sicrhau dilyniant clir bob amser. O ganlyniad, yn aml, nid yw medrau rhifedd disgyblion mewn gwahanol gyd-destunau wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn dda. Mae staff yn gweithio'n ddiwyd i annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn caffael amgyffrediad cadarn o batrymau iaith a geirfa sylfaenol. Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd priodol i ddysgu am eu hardal, a hanes a diwylliant Cymru trwy'r cwricwlwm, a thrwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o ymweliadau a gweithgareddau diddorol yn y gymuned.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n meithrin medrau personol a chymdeithasol disgyblion yn dda. Trwy'r cwricwlwm, arferion dyddiol, amser cylch a gweithredoedd o gyd-addoli, mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o werthoedd fel gonestrwydd, goddefgarwch a chydarddoldeb yn effeithiol. Mae cod ymddygiad yr ysgol yn hyrwyddo ymddygiad da yn llwyddiannus, ac mae pob disgybl yn gwerthfawrogi 'Gwobr Dinasyddiaeth' wythnosol. Mae'r agweddau gofalgar a ddangosir gan ddisgyblion hyn tuag at y disgyblion iau yn nodweddiadol gref iawn o waith yr ysgol.

Caiff disgyblion gyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn cyfrannu'n dda at ddatblygu'r agweddau hyn. Mae'r ysgol yn rhan annatod o'r gymuned ac mae disgyblion yn cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau cymunedol, gan gynnwys eisteddfodau. Mae hyn yn hyrwyddo eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer corff rheolaidd. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda, ac maent yn ymateb yn sensitif i'w hanghenion cymdeithasol ac emosiynol. Mae ethos yr ysgol yn amgylchedd agored a gofalgwr lle caiff disgyblion eu hannog i drafod unrhyw broblemau gyda staff. Ceir darpariaeth addas i sicrhau bod disgyblion yn gwybod sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel, er enghraifft wrth ddefnyddio'r rhyngwyd. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol berthynas dda â rhieni ac mae wedi sefydlu llinellau cyfathrebu effeithiol i'w hysbysu'n rheolaidd am waith yr ysgol. Mae hyn yn eu hannog i gymryd rhan weithredol yn addysg eu plant. Trwy leoli'r cylch chwarae lleol yn yr adeilad, mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfnod pontio esmwyth pan fyddant yn dechrau'r ysgol.

Yn ddiweddar, mae'r pennaeth dros dro wedi datblygu proses fonitro ac olrhain drylwyr sy'n galluogi staff i fesur cynnydd disgyblion yn fwy systematig. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur ei heffaith ar ddarpariaeth a deilliannau disgyblion.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth briodol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol; fodd bynnag, megis dechrau y mae prosesau ffurfiol i nodi'r unigolion hyn, ac nid ydynt bob amser yn systematig. Mae cynlluniau addysg unigol ar waith, ac fe gaiff cynorthwyr cymorth dysgu eu defnyddio'n briodol i fodloni anghenion disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd disgwylidig tuag at gyflawni'r targedau unigol a osodir ar eu cyfer. Yn fwy diweddar, mae disgyblion yn cymryd mwy o ran yn y broses o osod eu targedau eu hunain ac adolygu cynnydd.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant

Mae'r pennaeth dros dro, staff a llywodraethwyr yn rhannu diben cyffredin ar gyfer eu gwaith, ac yn llwyddo i greu cymuned ofalgwr a chynhwysol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Un o nodau canolog yr ysgol yw lles a llesiant ei disgyblion. Ers dechrau'r flwyddyn academaidd hon, bu mwy o ffocws ar gydweithio ac atebolrwydd gan yr holl randdeiliaid. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella darpariaeth a deilliannau disgyblion.

Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r ysgol. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, yn cyfarfod fel corff, yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth, yn adolygu materion ariannol yn bwrpasol ac yn cymryd rhan mewn prosesau monitro. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon clir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, ac felly mae eu rôl yng nghyfeiriad strategol yr ysgol yn gyfyngedig.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn nodi llawer o gryfderau a meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, mewn manau, mae'r adroddiad yn aml yn ddisgrifiadol ac nid yw'n cynnwys dadansoddiad ac arfarniad digonol. Nid yw'r cyswllt rhwng deilliannau hunanarfarnu a chynllunio datblygiad yr ysgol wedi'i ymgorffori'n llawn. Er bod arweinwyr yn monitro gwaith yr ysgol yn briodol trwy graffu ar lyfrau ac arsylwi gwersi, nid ydynt bob amser yn defnyddio'r wybodaeth yn ddigon da i sicrhau gwelliannau a mynd i'r afael â materion pwysig fel datbygu disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol, ac ansawdd adborth athrawon. Mae'r pennaeth dros dro

newydd wedi datblygu dogfen fwy arfarnol yn ddiweddar, sy'n nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn fwy trylwyr. Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio'n glir ar wella darpariaeth a deilliannau disgyblion.

Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllideb yn briodol. Mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu'n effeithiol â'r blaenoriaethau ar gyfer gwella. At ei gilydd, mae gan yr ysgol adnoddau digonol i fodloni anghenion dysgu disgyblion ac anghenion y cwricwlwm. Ar ôl monitro safonau yn ddiweddar, mae aelodau o staff yn cydnabod bod angen deunydd darllen newydd ar gyfer darllenwyr anfoddog. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur ei effaith ar fwynhau disgyblion a'u safonau mewn darllen. Defnyddir y grant datblygu disgyblion yn briodol i dargedu anghenion disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim; fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn monitro effaith y cymorth hwn yn ddigon da.

Mae'r pennaeth dros dro wedi dechrau adolygu cyfrifoldebau arwain ysgol gyfan fel sail ar gyfer datblygu cynllunio'r cwricwlwm a sicrhau atebolrwydd effeithiol. Caiff staff gyfleoedd addas i wella'u medrau a'u gwybodaeth broffesiynol, er enghraifft trwy gydweithio ag ysgol leol arall i ddatblygu gweithgareddau mathemategol a sillafu ar gyfer disgyblion. Nid yw canlyniad y fenter hon wedi cael effaith lawn ar y ddarpariaeth a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion eto.

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwysu gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwysu cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 28 Ddeddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 201X: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/11/2017